# Pecyn Dogfen Cyhoeddus


At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 1 Rhagfyr 2021

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 8 RHAGFYR 2021** am **9.30 am TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 (copi ynghlwm).

**5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022** (Tudalennau 13 - 18)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi wedi'i amgáu), ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar eitemau a aildrefnwyd a'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 554278** (Tudalennau 19 - 30)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 554278.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Carson Irving (Cadeirydd)
Brian Jones (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Barry Mellor
Melvyn Mile
Merfyn Parry
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Peter Scott
Rhys Thomas
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
# GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy’n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy’n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynhadledd ddydd Mercher, 15 Medi 2021 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving (Cadeirydd), Brian Jones (Is-Gadeirydd), Barry Mellor, Melvyn Mile, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Peter Scott, Rhys Thomas a Huw Williams

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies a Tony Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr – Arweinydd Tîm – Lleoedd (TD), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Trwyddedu (ES), Swyddog Cyfreithiol (SR) a Swyddogion y Pwyllgor (KEJ a SJ [i we-ddarlledu])

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Arwel Roberts

**2 DATGANIAD CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

**5 ADOLYGIAD - DEDDF TRWYDDEDU 2003 – DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau adolygu Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor cyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn yn dilyn hynny. Roedd y polisi yn sefydlu fframwaith lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer caniatâd neu amrywiadau i amodau a thelerau presennol ac roedd yn ofyniad statudol i ymgynghori ac adolygu'r polisi o leiaf bob pum mlynedd.

O ystyried y manteision o bolisi cyson ar draws Gogledd Cymru, roedd y mwyafrif o'r newidiadau arfaethedig wedi cael eu drafftio gan chwe awdurdod trwyddedu

Gogledd Cymru, ac wedi cael eu hamlygu yn goch i'r aelodau eu hystyried. Nid oedd newidiadau sylweddol wedi cael eu cynnig oni bai am gynnwys newidiadau deddfwriaethol, cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, cryfhau materion yn ymwneud â chyffuriau a chynnwys mentrau lleol. Roedd y broses ymgynghori yn cynnwys hysbysiad cyhoeddus o'r polisi drafft ynghyd â chysylltu ag ymgyngoreion statudol a'r holl ddeiliaid trwydded. Bu i'r swyddogion argymell bod unrhyw sylwadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor ond os na dderbynnir sylwadau, dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn i gymeradwyo'r polisi drafft.

Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Polisi Trwyddedu drafft a thrafod gyda swyddogion ynghylch gofynion amrywiol a chamau rhesymol yr oedd yr awdurdod lleol yn eu disgwyl gan eiddo trwyddedig. Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau'r aelodau a sylwadau ynglŷn ag agweddau amrywiol o'r polisi ac fe wnaethant ddarparu eglurder mewn sawl maes. Roedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol -

- cadarnhaodd y swyddogion bod gofyniad deddfwriaethol ar bob eiddo â thrwydded i gyflenwi alcohol, i ddarparu dŵr yfed am ddim ar gais
- roedd yr aelodau wedi cwestiynu'r cyfeiriad arfaethedig at y ddarpariaeth o ystafell cymorth cyntaf a chyfarpar (yn cynnwys diffibriliwr mewn lleoliadau mwy) ac a oedd angen ei gynnwys yn y polisi o ystyried bod hyn yn gyfrifoldeb ar yr eiddo trwyddedig ac nid yr awdurdod trwyddedu.
  Cadarnhaodd y swyddogion y byddai unrhyw ofyniad i ddarparu cyfleusterau cymorth cyntaf yn cael ei benderfynu o fewn yr asesiadau risg a gynhaliwyd gan yr eiddo trwyddedig a hefyd yn ystyried y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Fodd bynnag, roedd y briodol bod y polisi'n ystyried rheoli'r eiddo trwyddedig yn ei gyfanrwydd ac i annog cynnal pob cam rhesymol. Nid oedd amodau penodol ar gyfer eiddo trwyddedig wedi cael eu cynnig o ran darpariaethau cymorth cyntaf o ystyried mai cyfrifoldeb yr eiddo trwyddedig unigol oedd penderfynu beth oedd yn addas iddyn nhw
- eglurwyd y byddai yfed o boteli yn cael ei ganiatáu oni bai bod amod ar y drwydded eiddo unigol yn gwahardd hynny a chytunodd swyddogion i ailedrych ar y geiriad yn y polisi i sicrhau eglurder o ran hynny
- byddai rheolyddion ynglŷn ag yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus / ar y stryd yn destun Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus
- roedd atodiad 6 yn y polisi yn cyfeirio at amodau gorfodol nad oedd modd eu newid
- o ran disgwyliadau hyfforddiant staff, roedd pob eiddo trwyddedig yn gyfrifol am hyfforddiant staff a byddai pob eiddo yn meddu ar ei raglen hyfforddiant ei hun
- er nad oedd diffiniad o 'leoliadau mwy', roedd disgwyl y byddai unrhyw fesurau angenrheidiol ychwanegol, o ystyried maint y lleoliad, yn cael eu penderfynu yn asesiad risg yr eiddo unigol
- wrth ymateb i sylwadau ynghylch y diffyg cyfeiriad at reoliadau rheoli adeiladu yn adran 5 y polisi, dywedodd y swyddogion fod y Gwasanaethau Cynllunio yn ymgyngoreion statudol ac roedd ganddynt gyfle i roi mewnbwn ar yr adolygiad polisi; cytunodd y swyddogion i ofyn am farn Rheoli Adeiladu yn benodol o ran hynny.
- cyfeiriodd y Cynghorydd Meirick Davies at y cyfeiriad yn y polisi (tudalen 64) at "mae alcohol yn sylwedd gwenwynig" a gofynnodd a fyddai modd ychwanegu, "yn gyffur, ac yn creu dibyniaeth".

Cytunodd y swyddogion i geisio barn y Bwrdd Iechyd wedi hynny.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar sylwadau'r aelodau, bod y Pwyllgor yn rhoi awdurdod i swyddogion ddechrau ymgynghori, ac -*

*(a) os na dderbynnir sylwadau yn sgil yr ymgynghoriad, bod datganiad drafft o'r Polisi Trwyddedu yn cael ei gyflwyno'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo, neu*

*(b) os y derbynnir sylwadau yn sgil yr ymgynghoriad bod y swyddogion yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr 2021.*

## 6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) ar raglen gwaith i'r dyfodol arfaethedig y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2021/22.

Yn y cyfarfod diwethaf, hysbyswyd yr aelodau ynghylch yr anawsterau o ran cynnal rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y Pwyllgor dros y deuddeg mis diwethaf yn sgil pandemig y coronafeirws a chytunwyd bod y swyddogion yn ailddrafftio rhaglen gwaith i'r dyfodol i'w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf i'w chymeradwyo. Wrth ddrafftio'r rhaglen gwaith i'r dyfodol, roedd y swyddogion wedi ystyried polisïau a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor, ynghyd â dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ac unrhyw newidiadau deddfwriaethol posibl a gynigir gan lywodraeth ganolog. Dywedodd y swyddogion bod dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol wedi cael eu cadarnhau a byddent yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn atodiad i'r adroddiad.*

### Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 yn Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 553562

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol) wedi -

(i) i gais gael ei dderbyn gan Ymgeisydd Rhif 553562 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) i swyddogion atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu i benderfynu arno oherwydd amgylchiadau penodol yr achos;

(iii) i’r Ymgeisydd apelio i’r Llys Ynadon yn erbyn dirymiad ei drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat ym mis Gorffennaf 2019 oherwydd trosedd glwyfol honedig. Cafodd yr achos ei gau gan Lys y Goron ym mis Hydref 2019 ac ni chafodd yr Ymgeisydd ei farnu’n euog o unrhyw drosedd;

(iv) i’r Llys Ynadon gyflwyno gorchymyn cydsynio yn cytuno y dylid rhoi’r apêl o’r neilltu a chaniatáu i’r Ymgeisydd wneud cais i’r awdurdod trwyddedu am drwydded newydd lle byddai'r holl faterion yn cael eu hystyried o'r newydd;

(v) i wybodaeth bellach ynglŷn â’r cais yn cynnwys hanes yr Ymgeisydd fel gyrrwr trwyddedig a’r holl wiriadau arferol eraill gael eu cwblhau i safon foddhaol ynghyd â’r geirdaon a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd;

(vi) ystyried polisi’r Cyngor ynghlwm ag addasrwydd ymgeiswyr, ac

(vii) i’r Ymgeisydd gael ei wahodd i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau’r pwyllgor.

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Eglurodd yr Ymgeisydd y digwyddiadau’n gysylltiedig â’r drosedd honedig, a oedd yn ei gwadu’n bendant, ynghyd â’r prosesau cyfreithiol canlynol a’r effaith niweidiol ar ei fywyd personol. Roedd yr Ymgeisydd yn awyddus i adennill y drwydded a dychwelyd i’r gwaith yr oedd yn ei garu ac i ddarparu ar gyfer ei deulu. Atebodd yr Ymgeisydd y cwestiynau a godwyd gan aelodau gan geisio cadarnhau ei fod yn addas i gael trwydded, gan gadarnhau nad oedd wedi bod wrth ei waith pan ddigwyddodd hyn, nid oedd wedi bod yn rhan o unrhyw ddigwyddiad o’r fath yn y gorffennol ac nid oedd ganddo unrhyw broblemau rheoli dicter. Pwysleisiodd yr Ymgeisydd ei edifeirwch ynghylch y digwyddiad a darparodd sicrwydd ei fod wastad wedi bod, ac yn parhau i fod, yn unigolyn cymwys ac addas i gael trwydded. Yn ei ddatganiad terfynol, bu i’r Ymgeisydd annog yr aelodau i gymeradwyo ei gais er mwyn iddo allu gweithio a darparu ar gyfer ei deulu.

Oedwyd y cyfarfod er mwyn ystyried y cais a -

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r cais ar gyfer trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 553562.*

Dyma resymau’r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr aelodau wedi ystyried amgylchiadau penodol yr achos yn ofalus, fel yr oeddent i'w gweld yn yr adroddiad, ynghyd â chyflwyniadau’r Ymgeisydd a'i atebion i gwestiynau. Roedd yr aelodau hefyd wedi ystyried yr adrannau perthnasol yn Natganiad Polisi’r Cyngor ynghylch addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y masnachau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Yn benodol, ystyriodd y Pwyllgor adran 4.12 o'r polisi a oedd yn nodi y byddai materion, nad oeddent wedi arwain at gollfarn droseddol, yn cael eu hystyried ac roedd unrhyw gyfeiriad mewn perthynas â "chollfarn" yn y polisi yn cynnwys materion yr oedd yr un fath ag ymddygiad troseddol ond nid oeddent wedi arwain at gollfarn, ac adran 4.31 a oedd yn nodi, o ran troseddau'n cynnwys / yn ymwneud â thrais, na fyddai trwydded yn cael ei chaniatáu nes yr oedd o leiaf 10 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd. Casglodd y Pwyllgor nad oedd yr Ymgeisydd wedi cael ei farnu'n euog o unrhyw drosedd (yn wir ystyriwyd bod achos troseddol Llys y Goron ar y drosedd o glwyfo wedi arwain at ddieuogi'r Ymgeisydd) ond ystyriodd, at ei gilydd, bod ffrae wedi digwydd rhwng yr Ymgeisydd ac unigolyn arall. Derbyniodd y Pwyllgor ddehongliad yr Ymgeisydd o'r amgylchiadau mewn perthynas â'r digwyddiad, yn cynnwys y sylwadau mewn perthynas â chythruddo a lliniaru ac ei fod yn gwadu'r honiad o glwyfo.

Gan fod y ddarpariaeth uchod yn eglur yn y polisi, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn ystyried 3.19 yn yr un polisi, oedd yn datgan na ddylid ond gwyro oddi wrth ddarpariaeth yn y polisi mewn amgylchiadau eithriadol ac am resymau cyfiawn.

Ar ôl canfod nad oedd yr Ymgeisydd wedi cael ei farnu'n euog o unrhyw drosedd o ran y ffrae ac ar ôl clywed gan yr Ymgeisydd am yr amgylchiadau'n gysylltiedig â'r digwyddiad, a rhoi ystyriaeth i hanes yr Ymgeisydd fel gyrrwr a'r geirdaon a ddarparwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i gael trwydded. Casglodd y Pwyllgor bod amgylchiadau eithriadol a bod rhesymau cyfiawn, sef rhyddfarn llys troseddol yn ymwneud â'r digwyddiad serch hynny ar gyfer y drosedd o glwyfo ac nid troseddau trais ehangach, o dan adran 3.19 yn y polisi i wyro oddi wrth y ddarpariaeth yn adran 4.31 a chymeradwyo'r cais.

Cafodd penderfyniad y Pwyllgor ei gyfleu i'r Ymgeisydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50 am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 8 Rhagfyr 2021 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2022 |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD:

1.2 Cynghori'r Aelodau ar flaenoriaethau'r Adran Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith a gytunwyd ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn 2022.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adran Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau mewn perthynas â'i swyddogaeth drwyddedu a rheoleiddio effeithiol, rheoli a gorfodi trwyddedai, ac ymrwymiad yr Awdurdod i gymunedau diogelach a datblygu'r economi.

2.2 Oherwydd blaenoriaethau nas rhagwelwyd, bu'n rhaid diwygio y rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gymeradwywyd gan yr Aelodau yn flaenorol ac mae materion wedi'u hail drefnu i'w hystyried.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Swyddogion wedi cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol oedd wedi'i ddiweddaru yn y cyfarfod diwethaf ym mis Medi 2021, ac fe'i cymeradwywyd. Roedd y swyddogion wedi trefnu i gyflwyno nifer o faterion wedi'u diweddaru i chi eu hystyried yn y cyfarfod hwn, ond oherwydd nifer o ffactorau, bydd materion o'r fath yn cael eu cyflwyno i chi mewn cyfarfod yn y dyfodol. Gellir canfod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol newydd yn Atodiad 1.

3.2 Mae swyddogion wedi cymryd y cyfle hwn i ddarparu diweddariad i'r Aelodau ar faterion a ddylai fod wedi'u cyflwyno i'r cyfarfod hwn fel y

nodwyd isod:

3.2.1 **Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat**
Mae gwaith ar y gweill i alluogi Swyddogion i gyhoeddi dogfen ymgynghori ar Ddatganiad o Bolisi Trwyddedu arfaethedig ar gyfer y diwydiant tacsis yn dilyn argymhellion gan yr Adran Gludiant i weithredu Safonau Statudol sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi cynhyrchu polisi enghreifftiol i'w ddefnyddio gan awdurdodau Cymru. Mae'r ddogfen ymgynghori yn awr yn y camau olaf ac mae Swyddogion yn gweithio gyda Swyddog Ymgysylltiad Cyhoeddus y Cyngor i gyhoeddi'r ymgynghoriad drwy borth Sgwrs y Sir.

3.2.2 **Adolygu Datganiad o Egwyddorion - Deddf Gamblo 2005**
Mae adolygiad o Ddatganiad o Egwyddorion y Ddeddf Gamblo 2005 yn cael ei gyflawni ar y cyd gyda chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru ac ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd Swyddogion mewn sefyllfa i gynhyrchu'r adolygiad arfaethedig ar gyfer yr Aelodau.

3.3.3 **Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd**
Bydd yr Aelodau'n cofio, yn y cyfarfod ar 23 Mehefin 2021, cyflwynodd y Swyddogion adolygiad drafft o'r Polisi Masnachu ar y Stryd. Yn y cyfarfod hwn penderfynodd yr Aelodau y dylid cymeradwyo'r polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad a chytuno i sefydlu is-grŵp i ystyried y polisi ymhellach. Penderfynodd yr Aelodau hefyd y dylai'r Is-grŵp gynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd ynghyd â chynrychiolydd o bob Grŵp Ardal Aelodau. Yn anffodus, oherwydd y galw ar amser yr Aelodau, bu'n rhaid gohirio'r cyfarfod gyda'r cynrychiolwyr a drefnwyd yn wreiddiol ac mae'r is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer diwedd Tachwedd. Yn y cyfamser, mae gwaith yn parhau gyda Swyddog Ymgysylltiad Cyhoeddus y Cyngor er mwyn cyhoeddi'r ymgynghoriad drwy borth Sgwrs y Sir pan fyddwn yn barod i wneud hynny.

3.3.4 **Datganiad o Bolisi Trwyddedu - Deddf Trwyddedu 2003**
Yn y cyfarfod diwethaf ym mis Medi, awdurdododd yr Aelodau i'r Swyddogion ymgynghori ar ddatganiad o bolisi diwygiedig. Ers y cyfarfod hwnnw, daeth i'r amlwg nad yw'r polisi presennol yn diwallu'r gofynion hygyrchedd a byddai angen cryn dipyn o newidiadau sylweddol i'w newid i safon dderbyniol. Felly mae'r swyddogion wedi ystyried yr opsiynau ac yn credu bod cyfle yma, i ystyried defnyddio'r templed a ddatblygwyd gan awdurdodau Gogledd Cymru. Nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol i gynnwys polisi'r Cyngor o gymharu â thempled Gogledd Cymru ond mae'n fwy o achos o newid edrychiad a fformat. Felly bydd y swyddogion yn adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol ar ôl

ymgynghoriad.

3.3.5 **Adolygu Ffioedd a Thaliadau**

Mae ffioedd a thaliadau ar gyfer gweinyddu proses drwyddedu tacsis wedi'u hadolygu a'u diweddaru ddiwethaf yn 2018. Er y dylid adolygu'r ffioedd hyn yn rheolaidd gohiriwyd y gwaith gan iddo gyd-daro â phandemig Covid. Yn ogystal â hyn, mae gwaith i weithredu system ymgeisio ar-lein ar y gweill a fyddai'n gwneud newidiadau o bwys i'r broses ymgeisio. At hynny, mae'r swyddogion wedi derbyn ceisiadau am adolygiad o ffioedd cerbydau hacni, a ddiweddarwyd hefyd yn 2018.

Mae'r swyddogion yn cynnig y dylid symud ymlaen â'r ddau adolygiad ochr yn ochr â'i gilydd ac ymgynghori â'r trwyddedai presennol ar y ffioedd a chostau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac

4.2 Argymhellir hefyd bod Aelodau'n ystyried a chymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol diwygiedig a nodwyd yn Atodiad 1 ar gyfer y flwyddyn 2022.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 1**

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2022**

| Dyddiad y Pwyllgor | Adroddiad | Sylw |
|---|---|---|
| **2 Mawrth 2022** | Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | Diweddariad yn dilyn ymgynghoriad i'w gymeradwyo |
| | Adolygu Datganiad o Egwyddorion - Deddf Gamblo 2005 | I adolygu'r polisi presennol fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth |
| | Adolygu Ffioedd a Thaliadau 2022/23 | Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn dilyn adolygiad o'r tabl o ffioedd presennol |
| | Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd | Diweddariad yn dilyn ymgynghoriad i'w gymeradwyo |
| | Datganiad o Bolisi Trwyddedu – Deddf Trwyddedu 2003 | I ddiweddaru Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad petai sylwadau'n cael eu derbyn |
| | Adolygiad o'r rhestr o Daliadau Cerbydau Hacni | Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn dilyn adolygiad o'r taliadau presennol. |
| **22 Mehefin 2022** | Is-ddeddfau Cerbydau Hacni | Cefnogi'r is-ddeddfau enghreifftiol ar gyfer ymgynghoriad gyda phartïon sydd â diddordeb |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Tîm Trwyddedu | Y wybodaeth ddiweddaraf |
| | Ffioedd a Thaliadau 2022/23 | Ond yn angenrheidiol os ceir gwrthwynebiad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus |
| | | |
| **14 Medi 2022** | Adolygu Polisi Eithrio Platiau Cerbydau Hurio Preifat | Adolygu'r polisi presennol |
| | Adolygu Polisi Defnydd Arfaethedig | Adolygu'r polisi presennol |
| | Hyfforddiant i Aelodau | I Aelodau Pwyllgor newydd os nad oes hyfforddiant ffurfiol wedi digwydd ymlaen llaw |

| | | |
|---|---|---|
| **7 Rhagfyr 2022** | Is-ddeddfau Cerbydau Hacni | Diweddariad yn dilyn adolygiad, dim ond os ceir gwrthwynebiadau ar ôl yr ymgynghoriad |

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag